@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James



## Pêl-droed a phêl-rwyd Cylch Aberystwyth

Dydd Iau yma (Mai yr 2ail) bydd twrnamaint Pêl-droed a phêl-rwyd lleol Cylch Aberystwyth yn cael eu cynnal. Mi fydd un tîm pêl-droed ac un tîm pêl-rwyd yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon. Mi fydd yr ysgol yn anelu at sicrhau ein bod yn gweithredu system cylchdroi eilyddion cyfartal er mwyn sicrhau digon o gyfle i bob disgybl chwarae ar y caeau / cyrtiau yn ystod y gystadleuaeth. Byddant yn digwydd yn ystod y bore ac yn gorffen tua amser cinio. Os yw eich plentyn yn cystadlu bydd angen pecyn bwyd i ginio arnynt gan na allwn sicrhau fydd y gystadleuaeth wedi gorffen mewn pryd. Dymuniadau gorau i'r rhai fydd yn cymryd rhan.

## Traws gwlad Cylch Aberystwyth

Dydd Iau wythnos nesaf (Mai y 9fed) byddwn yn cynnal Trawsgwlad Cylch Aberystwyth yma ar gaeau yr Ysgol Gymraeg. Mae gwahoddiad i holl ysgolion y Cylch gymryd rhan, a bydd cyfle i **bawb** o flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yr Ysgol Gymraeg i gymryd rhan. Mi fydd y ras gyntaf ar gyfer Bechgyn Blwyddyn 3 am 10 o'r gloch y bore gyda'r rasys nesaf pob 10 munud yn dilyn hynny. Mi fydd angen dillad ac esgidiau addas. Mi fyddwn yn dosbarthu crys chwaraeon yr ysgol i bawb fydd yn cynrychioli'r ysgol. Mae croeso i rieni / gwarcheidwaid ddod i gefnogi. Mi fydd pawb yn cwrdd ar Gaeau'r Ysgol Gymraeg.

## Prynhawn Coffi – a raffl

Ar brynhawn dydd Iau y 9fed o Fai bydd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn cynnal Prynhawn Coffi, gan gychwyn am 3:35yp.
Byddwch yn derbyn dau lyfr raffl i bob teulu wythnos hon i'w gwerthu er mwyn cefnogi'r Gymdeithas i godi arian tuag at adnoddau'r ysgol. Byddwn yn tynnu'r raffl yn ystod y prynhawn. Bydd disgyblion blynyddoedd 3 a 4 yn canu yn y digwyddiad. Bydd llythyr hefyd yn eich cyrraedd gan y GRhA cyn hir yn gofyn am gyfraniadau i'r digwyddiad ee cacennau ac ati. Diolchwn ymlaen llaw i'r Gymdeithas am drefnu hyn ac i chithau fel teuluoedd am gefnogi.

## Iechyd a Diogelwch

Mae'n rhyfedd rhannu neges fel hon ar ddiwrnod mor wlyb! Ond, mae bellach yn dymor yr haf ac felly cofiwch eli haul a digon o ddŵr ar ddiwrnodau poeth. Mae croeso i ddisgyblion ddod ag eli haul gyda nhw i'r ysgol. Mi fydd y staff yn atgoffa disgyblion o'r angen i wisgo het haul ac i ddefnyddio eli haul cyn amseroedd egwyl neu wersi tu allan.

## Gwersyll yr Urdd Glan-llyn – Blynyddoedd 5 a 6

Mae pawb ym mlynyddoedd 5 a 6 yn dechrau cyffroi ar gyfer y daith breswyl eleni i Wersyll yr Urdd Glan-llyn.
Byddwn yno am dridiau – o ddydd Llun yr 20fed o Fai tan ddydd Mercher yr 22ain o Fai.

Bydd mwy o wybodaeth am y daith yn cael ei rannu gyda theuluoedd bl.5a6 yn fuan.

Er mwyn gorffen talu am y daith, mae'r rhandaliadau yn ymddangos
ar eich ParentPay fel 3x £50 ac 1x £25.
Os ydych chi wedi methu un neu fwy o daliadau mae cyfle i chi dalu
rhwng nawr ac wythnos nesaf, gyda'r taliad olaf o £25 erbyn Mai'r 7fed.
Mae'r sgrînlun yma yn enghraifft o sut y bydd y taliadau yn ymddangos ar eich ParentPay.

**Cost:** £175.00
**Remaining to pay:** £25.00
Hide payment schedule

| Instalment | Amount | Due date | Status |
|---|---|---|---|
| 1 | £50.00 | 01 May 24 | PAID |
| 2 | £50.00 | 05 May 24 | PAID |
| 3 | £50.00 | 06 May 24 | PAID |
| 4 | £25.00 | 07 May 24 | DUE |

Cofiwch gysylltu os ydych yn cael trafferthion gyda thalu.


**Y Gymraeg**

Rhannaf dau beth gyda chi’r wythnos hon, sef gwybodaeth Clwb Cwtsh ar gyfer dysgu siarad Cymraeg (gweler y poster a’r ddolen hon am fwy o wybodaeth)

[Taflenni Hyrwyddo 2024]

Gweler hefyd y poster gan WCW a’i ffrindiau sy’n gylchgrawn ar gyfer plant hyd at 9 oed. Cyfle gwych i annog darllen adref gyda’ch plentyn.




**Traws gwlad yr URDD**
Am 2 o’r gloch ar ddydd Sadwrn yr 11eg o Fai bydd Traws Gwlad Cenedlaethol yr Urdd ar Gaeau Blaendolau.
Mae croeso i bawb o fl.3-6 gymryd rhan, ond mae’n rhaid i chi gofrestru eich plentyn o flaen llaw (£2 i aelodau o’r Urdd)
Cofrestrwch yma : [Traws Gwlad Yr Urdd 2024 | Aberystwyth | Urdd Cross Country 2024 (cognitoforms.com)]

**Calendr Hanner Tymor**
Dyma’r ddolen i’r [Calendr Hanner Tymor] ar gyfer yr **hanner tymor hwn**. Mae dolen i’r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae’n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

**Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf**
Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau hanner tymor ar ddydd Gwener y 24ain o Fai, ac yn ail-agor ar ddydd Llun y 3ydd o Fehefin.
Gwersi beicio Blwyddyn 6 – Mehefin 4ydd – 7fed.
Ffotograffau dosbarth gyda chwmni Tempest – Dydd Mercher 12fed o Fehefin.
Mabolgampau Ysgol – dydd Iau yr 20fed o Fehefin.
H.M.S – Bydd yr ysgol ar gau i blant er mwyn hyfforddi staff ar ddydd Gwener yr 28ain o Fehefin 2024.
Cynhelir Barbeciw y G.Rh.A ar noson olaf-ond-un tymor yr haf, sef Nos Iau y 18fed o Orffennaf.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro**
**29/04/2024**
www.ysgolgymraeg.cymru

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James



### *Football and netball – Aberystwyth schools*

*This Thursday (May 2nd) the Aberystwyth Area local football and netball tournaments will be held. One football team and one netball team will take part in this competition. The school will aim to ensure that we operate a system of rotating equal substitutes in order to ensure enough opportunity for all pupils to play on the fields / courts during the competition. They will take place during the morning and finish around lunchtime. If your child is competing they will need a packed lunch as we cannot guarantee that the competition will finish in time. Very best wishes to those who are taking part.*

### *Aberystwyth Area cross country*

*On Thursday next week (May the 9th) we will hold the Aberystwyth Area Cross Country here on the Ysgol Gymraeg fields. All schools in the Area are invited to participate, and there will be an opportunity for everyone from years 3, 4, 5 and 6 of Ysgol Gymraeg to take part. The first race for Year 3 Boys will be at 10 o'clock in the morning with the next races every 10 minutes thereafter. The children will need suitable clothes and footwear. We will distribute the school's running shirts to everyone who will represent the school. Parents / guardians are welcome to come and support. Everyone will meet on the Gymraeg School Fields.*

### *Coffee Afternoon – and a raffle*

*On the afternoon of Thursday the 9th of May the Parent Teacher Association will hold a Coffee Afternoon, starting at 3:35pm.*
*You will receive two raffle books per family this week to sell in order to support the PTA and raise vital funds for the school's resources. We will draw the raffle during the afternoon. Pupils in years 3 and 4 will be singing at the event. A letter will also reach you from the PTA soon asking for contributions ie cakes etc. We thank the PTA in advance for organising and to you as families for supporting.*

### *Health and safety*

*It feels strange to share a message like this on such a wet day! But, it is now the summer term so please remember to apply sunscreen and supply plenty of water on hot days. Pupils are welcome to bring sunscreen with them to school. The staff will remind pupils of the need to wear a sun hat and to use sun cream before break times or outdoor lessons.*

### *Gwersyll yr Urdd Glan-llyn - Years 5 and 6*

*Everyone in years 5 and 6 is getting excited for this year's residential trip to Urdd Glan-llyn.*
*We will be there for three days - from Monday the 20th of May until Wednesday the 22nd of May.*

*More information about the trip will be shared with yrs.5 and 6 families soon.*

*In order to finish paying for the trip, the instalments appear on your ParentPay as 3x £50 and 1x £25.*
*If you have missed one or more payment there is an opportunity for you to pay between now and next week, with the final payment of £25 by May 7th.*
*This screenshot is an example of how the payments will appear on your ParentPay.*

**Cost:** £175.00
**Remaining to pay:** £25.00
Hide payment schedule

| Instalment | Amount | Due date | Status |
|---|---|---|---|
| 1 | £50.00 | 01 May 24 | PAID |
| 2 | £50.00 | 05 May 24 | PAID |
| 3 | £50.00 | 06 May 24 | PAID |
| 4 | £25.00 | 07 May 24 | DUE |

*Remember to get in touch if you have problems with payment.*


***The Welsh Language***

*I'm sharing two things with you this week, which is Clwb Cwtsh information on learning to speak Welsh (see the poster and this link for more information)*

*[2024 Promotion Leaflets]*

*See also the poster from WCW which is a magazine for children up to 9 years old. A great opportunity to encourage reading at home with your child.*




***URDD cross country***
*At 2 o'clock on Saturday the 11th of May the Urdd National Cross Country will be held on Blaendolau Fields.*
*Everyone from yrs.3, 4, 5 and 6 is welcome to take part, but you must register your child in advance (£2 for members of the Urdd)*
*Register here: Urdd Cross Country 2024 | Aberystwyth | Cross Country Guild 2024 (cognitoforms.com)*

***Half Term Calendar***
*Here is the link to the Half Term Calendar for* ***this half term****. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.*

***Important dates for next half term***
*The school will close for half term holidays on Friday the 24th of May, and reopen on Monday the 3rd of June.*
*Year 6 cycling proficiency lessons – June 4th – 7th.*
*Class photos with Tempest – Wednesday 12th June.*
*School Sports Day – Thursday the 20th of June.*
*I.N.S.E.T – The school will be closed to children due to staff training on Friday the 28th of June 2024.*
*The PTA Barbeque will be held on the penultimate night of the summer term, which is Thursday the 18th of July.*

***If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Acting Headteacher***
***29/04/2024***
www.ysgolgymraeg.cymru